Brandio a Chyfathrebu

Pryd gynhaliwyd yr arolwg?

Mehefin 2012

Beth oedd bwriad yr ymgynghoriad?

Asesu ymwybyddiaeth y cyhoedd o frand y cyngor, a darganfod pa rai o ddulliau cyfathrebu allanol y cyngor (Cyswllt, y cyfryngau lleol ac yn y blaen) sy'n cael eu defnyddio.

A wnaethoch chi ddarparu adborth i gyfranwyr?

Rhoddwyd adborth i aelodau panel Llais y Bobl.

Pa drefniadau cyhoeddusrwydd gafodd eu darparu?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy Llais y Bobl.

Sawl ymateb gafodd yr ymgynghoriad?

Cynhaliwyd 305 arolwg, gyda chanran ymateb o 57%.

Sut wnaeth y cyngor ddefnyddio'r canlyniadau? A wnaed unrhyw newidiadau? Os felly, pa newidiadau?

Mi fyddwn yn defnyddio'r canlyniadau i oleuo ein gweithgareddau cyfathrebu allanol, er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau mae'r cyhoedd yn eu defnyddio ac yn eu ffafrio. O ran brandio, rydym wedi defnyddio'r canlyniadau i ddylanwadu ar arweinlyfr cyfathrebu mewnol y cyngor.

Brandio

- Ymhlith yr ymatebion i'r ymholiad
  "Pan welwch chi'r symbol hwn ['W' am Gyngor Wrecsam] am beth ydych chi'n meddwl?"
  oedd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cymru, cartref/gartref, adar, tân gwyllt, blodau, dannedd, coed a dim byd.

- Roedd bron pawb (99%) wedi adnabod y symbol; dim ond 1% (dau unigolyn) a fethodd.

- Ymhlith yr ymatebion i'r ymholiad
  "Pan welwch chi'r logo hwn ['W' am Gyngor Wrecsam] sut ydych chi'n teimlo?"
  oedd: balch, cryf, cadarnhaol, wedi creu argraff, croesawgar, dryslyd, llon, cyfforddus, dan deimlad, blin, siomedig, heb fy ysbrydoli, difater, a dim byd.

- Gofynnwyd i drigolion graddio rhestr o eiriau perthnasol i Gyngor Wrecsam, gyda 1 yn cyfateb i *"ddim yn cysylltu"* a 5 yn cyfateb i *"cysylltu llawer".* Roedd dau o bob pump (40%) yn cysylltu'r cyngor â bod yn *"gyfeillgar"* (4 neu 5), a bron i un o bob tri (31%) hefyd o'r farn bod y cyngor yn *"ymroddedig".*
  Ond doedd dau o bob tri (66%) ddim yn credu bod y cyngor yn *"egnïol"* (1 neu 2 ar y raddfa), a thua hanner ddim yn cysylltu Cyngor Wrecsam â bod yn *"hyblyg"* (51%) na'n *"arloesol"* (49%).



Cyfathrebu

- Roedd dros dri o bob pump (63%) o'r trigolion o'r farn bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu gan y cyngor. Ond roedd tua un o bob tri (34%) yn anghytuno, gan ddweud nad oes digon o wybodaeth yn cael ei darparu.

- Roedd bron i dri chwarter y trigolion (72%) yn credu bod **maint y wybodaeth mae'r cyngor yn ei ddarparu** ynglŷn â sut i gysylltu â'r cyngor yn ddigonol. Roedd dros hanner y trigolion hefyd yn credu hynny am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol (55%) a pha wasanaethau mae'r cyngor yn eu darparu (52%).

- Roedd llai na un o bob pump o'r farn bod y cyngor yn darparu **gwybodaeth ddigonol** ynglŷn â: blaenoriaethau corfforaethol (16%), a yw'r cyngor yn cyflawni ei addewidion (11%), sut mae'r cyngor wedi'i drefnu a sut mae'n gweithredu (10%) a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud (10%).

- Roedd o leiaf tri o bob pump yn awyddus i **gael rhagor o wybodaeth** ynglŷn â: digwyddiadau a gweithgareddau lleol (67%), a yw'r cyngor yn cyflawni ei addewidion (64%), sut mae'r cyngor yn gwario arian (63%) a'r gwelliannau sydd ar y gweill ar gyfer y gwasanaethau (60%). Roedd dros hanner yn awyddus i wybod mwy am sut mae

penderfyniadau'n cael eu gwneud (54%) a pha mor dda mae'r cyngor am gyflawni ei ddyletswyddau (51%).

- Dim ond un o bob pump oedd yn awyddus i **gael rhagor o wybodaeth** ynglŷn â sut i gysylltu â'r cyngor (22%) a sut i gwyno i'r cyngor (20%).



- Pan ofynnwyd **pa wasanaethau maen nhw'n cael gwybodaeth ddigonol amdanynt gan y cyngor,** roedd mwy na dau o bob pump yn credu hynny am wasanaethau amgylcheddol fel glanhau'r strydoedd, casglu ysbwriel ac ailgylchu (47%), a gwasanaethau hamdden fel cyfleusterau chwaraeon, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol (41%). Roedd dros un o bob tri o'r farn bod y cyngor yn rhoi gwybodaeth ddigonol am gyfleusterau diwylliannol a threftadaeth, er enghraifft yr amgueddfa, y draphont ddŵr, ac arddangosfeydd (36%).

- Dim ond tua un o bob deg oedd yn credu **eu bod nhw'n cael gwybodaeth ddigonol gan y cyngor** ynglŷn â gofal cymdeithasol i oedolion, er enghraifft gofalwyr, gwaith cymdeithasol, anableddau dysgu (12%), gwasanaethau democratiaeth, er enghraifft manylion y cynghorwyr, manylion cyfarfodydd a phenderfyniadau'r cyngor (10%) a gwasanaethau tai, er enghraifft tai cyngor, digartrefedd a chymorthdaliadau (10%). Mae'n werth nodi mai ychydig dros un o bob pump (21%) sy'n credu nad yw'r cyngor yn eu hysbysu ynglŷn ag unrhyw un o'r gwasanaethau yn Ffigur 8.



- Pan ofynnwyd i drigolion pa rai o'r **gwasanaethau** yn Ffigur 9 maen nhw'n **awyddus i wybod mwy amdanyn nhw,** roedd gan o leiaf hanner ddiddordeb mewn gwasanaethau hamdden fel cyfleusterau chwaraeon, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol (53%), cyfleusterau diwylliant a threftadaeth fel yr amgueddfa, y draphont ddŵr, ac arddangosfeydd (50%) a datblygu economaidd fel adfywio, denu buddsoddiad, ac ymwelwyr (48%).

- Roedd gan lai na chwarter y trigolion ddiddordeb mewn gwasanaethau ariannol fel y Dreth Gyngor neu fudd-daliadau tai (24%) a gwasanaethau tai fel tai cyngor, digartrefedd a chymorthdaliadau (18%). Ond dim ond 8% ddywedodd nad oes ganddyn nhw unrhyw ddiddordeb mewn clywed mwy am unrhyw un o'r gwasanaethau a restrwyd.



- Er mwyn **cael gwybodaeth am y cyngor** roedd mwy na phedwar o bob pump (84%) wedi **defnyddio** gwefan y cyngor**,** ychydig dros dri o bob pump (62%) wedi darllen cylchgrawn y cyngor, Cyswllt, ac un o bob tri wedi defnyddio'r papurau newydd lleol (37%) ac awgrym ar lafar (33%).

- Y ffynonellau gwybodaeth **lleiaf poblogaidd** ar gyfer **cael gwybodaeth am y cyngor** yw: hysbysfyrddau mewn adeiladau cyhoeddus (10%), radio lleol (10%), Twitter (8%), cyfarfodydd cyhoeddus (7%), Facebook (5%) a theledu lleol (2%).



- Gofynnwyd pa ffynonellau gwybodaeth (os o gwbl) sydd gan drigolion ar gyfer **cael gwybodaeth am y cyngor.** Y rhai mwyaf poblogaidd oedd gwefan y cyngor (86%) a chylchgrawn y cyngor, Cyswllt (73%). Ond roedd lai nac un o bob pump (19%) yn defnyddio teledu lleol, cysylltu â swyddogion y cyngor (19%), negeseuon testun (15%), cyfarfodydd cyhoeddus (14%) a theledu digidol Wrecsam, Looking Local (2%).



- Roedd **y ffynonellau y byddai'n well gan drigolion eu defnyddio** yn cyd-fynd â'r rhai y byddant **yn hoffi eu defnyddio i gael gwybodaeth am y cyngor;** gwefan y cyngor (74%) a chylchgrawn y cyngor, Cyswllt (53%) oedd y mwyaf poblogaidd.

- **Y gwasanaethau lleiaf poblogaidd** oedd: teledu lleol (9%), posteri (8%), negeseuon testun (6%), awgrym ar lafar (5%) a theledu digidol Wrecsam, Looking Local (3%).



- Roedd dros bedwar o bob pump (81%) yn darllen pob gair (6%) neu gyfran (75%) o'r wybodaeth ar wefan y cyngor. Roedd bron i dri o bob pedwar (72%) yn darllen pob gair (44%) neu gyfran (28%) o gylchgrawn y Cyngor, Cyswllt. Roedd bron i ddau o bob tri (63%) yn darllen pob gair (22%) neu gyfran (41%) o daflen dreth y cyngor.

- Ond roedd tua phedwar o bob pump (79%) heb weld cyflenwad Twitter na thudalen Facebook y cyngor erioed.



- Pan ofynnwyd i gyfranwyr a oedd wedi gweld neu ddarllen ffynonellau gwybodaeth y cyngor **pa mor ddefnyddiol maen nhw** (Ffigur 13), roedd dros naw o bob deg (93%) o'r farn fod gwefan y cyngor yn ddefnyddiol. Roedd 7 o bob deg, neu fwy, yn credu bod cylchgrawn y cyngor, Cyswllt (79%), a thaflen dreth y cyngor (70%) yn ddefnyddiol.

- Roedd llai o bobl yn credu bod y cyflenwad Twitter (48%) a'r dudalen Facebook (32%) yn ddefnyddiol. Roedd tua un o bob tri o'r farn nad oeddynt yn ddefnyddiol iawn, neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl - 34% a 33% yn ôl arolwg ar-lein gan Opinion Research Services ar ran y cyngor yng Ngorffennaf 2012. Mae'n werth nodi nad oedd cyfran helaeth o'r trigolion heb eu gweld erioed (18% a 36%).



- Gofynnwyd i drigolion nodi pa mor aml maen nhw'n **darllen, gwrnado ar neu wylio** nifer o ffynonellau cyfryngol (Ffigur 15). Teledu BBC Cymru a theledu ITV Cymru oedd y mwyaf poblogaidd. Mae hanner y trigolion (50%) yn gwylio BBC Cymru pob dydd neu bron pob dydd, ac un o bob tri (33%) yn gwylio ITV Cymru pob dydd neu bron pob dydd.

- Mae o leiaf un o bob tri yn **darllen, gwrando ar neu wylio** The Wrexham Leader (43%), Granada TV (40%), The Leader (32%) a Heart FM (31%) pob diwrnod, bron pob diwrnod neu o leiaf unwaith yr wythnos.

- Ond roedd oddeutu tri o bob pedwar, neu fwy, byth yn **darllen, gwrando ar neu wylio, neu erioed wedi clywed am,** The Western Mail (91%), BBC Radio Cymru (84%), Central TV (78%), Calon FM (76%) na Real Radio (74%).


The Western Mail (251)
0 1 81 10
BBC Radio Cymru (252)
2 2 2 3 82 2
Calon FM (255)
2 2 3 3 7 64 12
S4C (249)
2 4 8 4 5 67 1
The Daily Post (269)
4 3 8 4 5 56 1
BBC Radio Wales (267)
3 4 8 5 6 57 1
Central TV (246)
3 5 4 1 77 1
Real Radio (254)
3 8 2 1 3 58 16
The Leader (293)
6 6 20 6 5 37 1
Papur newydd / Gorsaf Radio / Teledu leol arall (192)
10 3 3 3 71 7
The Wrexham Leader (293)
9 4 30 11 6 23
Heart FM (274)
6 17 8 6 7 43 1
Granada TV (264)
12 14 14 3 3 47 1
ITV Wales (274)
15 18 20 4 4 31 1
BBC Wales TV (285)
27 23 12 2 5 27
0% 10% 20% 30% 40% 50% 60% 70% 80% 90% 100
Bob dydd
Bron bob dydd
O leiaf unwaith yr wythnos
O leiaf unwaith bob pythefnos
Oddeutu unwaith y mis
Llai nag unwaith y mis
Byth
Erioed wedi clywed amdano